# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gofal Preswyl Apple**

**Cartref Gofal Preswyl Apple**
**12 Rivieres Avenue**
**Bae Colwyn**
**LL29 7DP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/12/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gofal Preswyl Apple

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | APPLE BEST CARE  LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 1 Gorffennaf 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl sy'n byw yn Apple yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a gânt. Maent yn cyd-dynnu'n dda â'r staff, y mae llawer ohonynt wedi gweithio yn y cartref ers sawl blwyddyn. Mae'r staff yn mwynhau gweithio yma; maent yn gweld y bobl sy'n byw yma fel teulu. Mae'r staff yn cefnogi'r bobl i fyw mor annibynnol â phosibl, gan fynd â nhw i'w hapwyntiadau a sicrhau y cynhelir cydberthnasau â'u teulu a'u ffrindiau. Maent yn defnyddio cyfleusterau hamdden lleol ac atyniadau eraill, ac mae trefnydd gweithgareddau sydd newydd ei benodi yn helpu i sicrhau bod y bobl yn cadw'n brysur yn y cartref hefyd.

Mae buddsoddiad yn cael ei wneud yn y cartref ac mae gwaith ailaddurno ac adnewyddu yn mynd rhagddo. Mae'r ystafelloedd byw yn gartrefol ac yn gyfforddus ac yn darparu lle i gymdeithasu, gwylio'r teledu neu wrando ar gerddoriaeth. Mae'r bobl yn hapus â'u hystafelloedd gwely, ac yn dewis sut y byddant yn edrych.

Mae'r staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn nodi bod y rheolwr yn hawdd mynd ato; mae pob un ohonynt yn dweud y gallant siarad ag ef ar unrhyw adeg. Mae'r bobl yn rhannu eu barn am y gwasanaeth mewn cyfarfodydd rheolaidd i'r preswylwyr; gallant ddewis sut y caiff y cartref ei redeg. Caiff darparwr y gwasanaeth ei gynrychioli gan 'unigolyn cyfrifol' sy'n ymweld â'r cartref yn rheolaidd er mwyn sicrhau lefel oruchwyliaeth dda. Mae'n gwybod beth sy'n gweithio'n dda a lle y gellid ei wella.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth o ran y gofal a'r cymorth a gânt yn y cartref. Maent yn dewis sut i dreulio eu diwrnod a chyflawni eu harferion dyddiol. Cynhelir cyfarfodydd i breswylwyr bob deufis a gofynnir am eu safbwyntiau am faterion megis y fwydlen, gweithgareddau a'r décor. Gwnaed newidiadau i'r fwydlen ac mae cydgysylltydd gweithgareddau bellach wedi'i gyflogi o ganlyniad. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth addurno eu hystafelloedd ac maent yn cael cyfle i fynegi barn am newidiadau i'r cartref. Mae'r ddogfennaeth cynllunio gofal yn cofnodi hoff bethau a chas bethau'r bobl a darperir ar gyfer y dewisiadau hyn.

Mae lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl yn rhan allweddol o'r cynlluniau gofal. Gwelsom fod y bobl yn cael eu hebrwng i apwyntiadau iechyd a'u bod yn cael eu hatgyfeirio i gael cyngor ac arweiniad iechyd pan fo angen. Trefnir therapi galwedigaethol pan fo'i angen, ac mae'r bobl yn gweld eu meddyg i gael archwiliadau rheolaidd ac adolygiadau o feddyginiaeth. Gofynnir am gyngor ar faeth pan fo'i angen a chaiff pwysau'r bobl ei fonitro er mwyn helpu i sicrhau bod y bobl mor iach â phosibl. Caiff iechyd meddwl ei hyrwyddo, ac mae'r staff yn gwybod sut i ymgysylltu â'r bobl a'u hannog i wneud y pethau sy'n eu gwneud yn hapus.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag arferion gwael, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae polisïau a gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon, ac mae pob aelod o'r staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol. Mae'r rheolwr neu'r uwch-staff yn weladwy o amgylch y cartref ac mae'r bobl yn mynd atynt i sgwrsio fel y mynnant. Maent yn teimlo'n gyfforddus yn codi unrhyw faterion. Yn ogystal, mae cyfleoedd i'r staff gyfarfod yn unigol â'r rheolwr ac i drafod materion sy'n gysylltiedig ag ymarfer.

Mae'r bobl yn teimlo'n eu bod yn rhan o'u cymuned. Mae un person yn gwneud gwaith gwirfoddol, mae rhai o'r bobl yn defnyddio cyfleusterau hamdden lleol ac yn ymweld ag atyniadau i dwristiaid. Maent yn mynd i siopa ac yn ymweld â chaffis a thafarndai lleol, gan sicrhau eu bod yn parhau'n rhan o'r gymuned ac yn cynnal eu cysylltiadau â'u teulu a'u ffrindiau.

Caiff yr adeilad ei wella'n barhaus drwy waith ailaddurno ac adnewyddu. Mae rhai o'r neuaddau wedi cael eu haddurno a gosodwyd lloriau newydd. Cyflogwyd swyddog cynnal a chadw i dreulio mwy o amser yn y cartref gan sicrhau bod pethau'n cael eu hatgyweirio a'u hadnewyddu'n fwy prydlon. Mae'r lolfa fawr yn gartrefol, yn groesawgar ac wedi'i haddurno'n hyfryd.

## Gofal a Chymorth

Mae gan bob person gynllun gofal cyfredol a chywir sy'n nodi sut y caiff ei anghenion eu diwallu. Maent yn darparu gwybodaeth ac arweiniad gofal gan y bobl, eu teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol, ac yn nodi hanes meddygol a hanes arall y person, ei deulu a'i ddiddordebau. Mae gwerthusiadau misol yn helpu i sicrhau bod y cynlluniau yn parhau i fod yn effeithiol a chynhelir adolygiadau bob tri mis. Mae'r staff sy'n darparu'r gofal yn adnabod y bobl yn dda; maent wedi gweithio yma ers cryn amser ac maent yn ymwybodol o ddewisiadau'r bobl a'r ffordd orau o ddarparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen. Mae'r rheolwr wrthi'n adolygu cynlluniau i wella lefel y manylder ar hyn o bryd, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar gael i aelodau newydd o staff.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt, gan fod y staff yn ymgynghori'n barhaus â nhw am eu dymuniadau a'u nodau. Mae'r gofal yn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau, gan ar yr un pryd ystyried unrhyw risgiau ac anghenion arbenigol. Caiff y bobl eu cefnogi i wneud yr hyn y maent am ei wneud megis gwaith gwirfoddol, chwarae golff, cymdeithasu â ffrindiau, mynd i'r sinema a mynd am dro hir. Mewn cyfarfod i breswylwyr, dywedodd un person yr hoffai fynd i farchogaeth eto ac mae hyn yn cael ei drefnu. Gwelsom fod y bobl yn cynnal cydberthnasau da â'u teulu a'u ffrindiau.

Gall y bobl gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill er mwyn cynnal eu hiechyd a'u llesiant parhaus. Mae'r cynlluniau gofal yn cofnodi cryfderau'r bobl a'r hyn y maent yn gallu ei wneud drostynt eu hunain, gan hyrwyddo gofal galluogol ac annibyniaeth. Mae'r cofnodion yn dangos bod anghenion iechyd bob amser yn cael eu hystyried; caiff apwyntiadau eu gwneud i'r bobl weld gweithwyr iechyd proffesiynol; darperir cymorth ychwanegol i'r bobl pan fyddant yn sâl, neu pan fydd eu hanghenion wedi cynyddu. Darperir cymhorthion a gwneir addasiadau er mwyn helpu'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl; gallant symud o amgylch y cartref yn ddiogel.

Mae systemau ar waith i ddiogelu’r bobl y mae'r gwasanaeth yn eu cefnogi. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth.  Dywedodd y staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym eu bod yn gallu lleisio eu pryderon pe bai ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r gwasanaeth yn amddiffyn hawliau'r bobl ac yn eirioli ar eu rhan mewn perthynas â phethau fel budd-daliadau lles. Gellir cael gafael ar wasanaeth eirioli annibynnol hefyd, a gwelsom fod un person wedi cael eiriolwr yn y gorffennol. Nid yw rhai pobl yn gallu rheoli eu harian eu hunain, neu nid ydynt am wneud hynny, ac o dan yr amgylchiadau hynny, cymerir gofal drwy gynnal archwiliadau rheolaidd â thyst er mwyn cadarnhau balansau a bwrw golwg dros waith papur. Mae'r prosesau ar gyfer rhoi meddyginiaeth hefyd yn cael eu cymryd o ddifrif. Cynhelir archwiliadau rheolaidd a chynhelir gwiriadau cymhwysedd ar gyfer yr aelodau hynny o staff â chyfrifoldebau rhoi meddyginiaeth.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn darparu amgylchedd sydd â digon o le i'r bobl symud o gwmpas yn rhydd ac i wneud dewisiadau am ble yr hoffent dreulio eu diwrnod. Mae dwy lolfa gartrefol yn darparu man tawel lle gall y bobl gymryd eu galwadau a chael sgyrsiau preifat neu ddarllen llyfr, ac un ar gyfer cymdeithasu â soffas a chadeiriau breichiau mawr a chyfforddus, llawer o olau naturiol a dewis o adloniant megis teledu, cerddoriaeth neu gemau. Mae potiau planhigion a gweithiau celf ac ornamentau amrywiol yn rhoi naws gartrefol, ac ar ddiwrnod ein hymweliad, roedd yr ystafelloedd cymunedol a'r cyntedd wedi'u haddurno ag addurniadau Nadoligaidd i ddathlu'r cyfnod. Er mai dim ond basnau golchi dwylo sydd yn yr ystafelloedd gwely, mae toiledau a/neu ystafelloedd ymolchi yn agos iawn at bob un ohonynt. Mae rhai arwyddion dwyieithog o amgylch y cartref gan gydnabod bod rhai o'r bobl yn siarad Cymraeg.

Gall y bobl ddewis cael teledu a chyfarpar chwarae gemau yn eu hystafell os byddant am wneud hynny. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus gyda'u hystafelloedd gwely, a dywedodd rhai ohonynt wrthym fod ganddynt bopeth sydd ei angen arnynt.  Gwelsom rai o'r ystafelloedd a nodwyd gennym fod llawer o eitemau personol yn yr ystafelloedd hynny, posteri a lluniau ar y waliau, cyfarpar chwarae gemau, cerddoriaeth, dillad, teganau meddal a phethau eraill sy'n bwysig i'r bobl sy'n defnyddio'r ystafelloedd.

Gwelsom bobl yn yr ardd; mae ardal wedi'i chysgodi lle gall y bobl smygu os byddant am wneud hynny. Gwelsom fod buddsoddiad wedi cael ei wneud yn y cartref; cafodd ystafelloedd gwely'r bob eu hailaddurno a'u hadnewyddu, mae'r ardaloedd cymunedol wedi cael eu haddurno a gosodwyd lloriau newydd. Mae'r ystafell fwyta wrthi'n cael ei hadnewyddu er mwyn i'r bobl allu gwneud diodydd poeth pan fyddant am eu cael. Mae mwy o waith i'w wneud ond mae'r cartref wedi cyflogi swyddog cynnal a chadw yn ddiweddar er mwyn i waith atgyweirio, gwaith cynnal a chadw a gwaith adnewyddu gael ei gwblhau'n gyflymach.

Mae darparwr y gwasanaeth wedi rhoi mesurau ar waith i nodi a lliniaru risgiau ac i gynnal a chadw cyfleusterau a chyfarpar pwysig. Gwelsom asesiadau risg ar gyfer y cartref a'r unigolion. Caiff cwympiadau eu monitro a'u gwerthuso er mwyn nodi themâu ac i sicrhau y caiff risgiau eu rheoli mewn ffordd fwy effeithiol. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff gwiriadau cynnal a chadw a gwiriadau diogelwch eu cwblhau ar gyfer risgiau sy'n gysylltiedig â legionella, diogelwch tân, diogelwch trydanol a diogelwch nwy ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant i wella arferion diogel a threfniadau iechyd a diogelwch yn y cartref.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithiol ac mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae'r rheolwr yn cynnal amrywiaeth o archwiliadau er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth ag ymarfer da a'r ddeddfwriaeth gyfredol. Mae'r rhain yn cynnwys archwiliadau o'r amgylchedd, neu brosesau a chofnodion. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref i weld yr archwiliadau ac i gynnal ei wiriadau a'i fesurau ei hun. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cwblhau 'Adolygiad o Ansawdd y Gofal' ddwywaith y flwyddyn er mwyn helpu i nodi beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda, a lle y gellir ei wella. Mae'r rheolwr yn defnyddio arolygon i gael adborth ac mae'r bobl yn rhannu eu safbwyntiau mewn cyfarfodydd i breswylwyr.

Caiff y bobl eu cefnogi gan aelodau o staff sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel gan ddefnyddio gweithdrefnau cadarn a sefydledig. Mae'r cofnodion yn dangos bod amrywiaeth o wiriadau yn cael eu cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio yn y cartref. Rhaid iddynt ymgymryd â chyfnod sefydlu a gweithio'n agos gydag aelodau o staff eraill mwy profiadol sy'n gyfarwydd â'r rôl. Mae'r cofnodion yn dangos y darperir hyfforddiant i'r staff wella eu sgiliau ac mae'r rheolwr yn ceisio dod o hyd i hyfforddiant ychwanegol sy'n benodol i anghenion unigryw ac unigol y bobl. Gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff a ddywedodd eu bod yn teimlo'n gymwys; maent wedi gweithio yn y cartref ers sawl blwyddyn ac maent yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda iawn. Caiff niferoedd digonol o staff gofal eu cyflogi yn y cartref er mwyn sicrhau bod trefniadau wrth gefn ar gael pe bai un ohonynt yn absennol o'r gwaith. Ers yr arolygiad diwethaf. Mae mwy o bobl wedi cael eu recriwtio neu wedi dychwelyd yn dilyn cyfnod estynedig i ffwrdd o'r gwaith. Dywedodd y staff wrthym cymaint y maent yn mwynhau gweithio yma a'u bod yn gweld y bobl y maent yn eu cefnogi fel teulu. Mae'n amlwg bod y staff yn meddwl y byd o'r bobl sy'n byw yn Apple. Maent yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac y gallant siarad â'r rheolwr neu'r uwch-staff ar unrhyw adeg. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cefnogi'r rheolwr mewn ffordd debyg ac yn ymweld â'r cartref yn aml.

Gall y bobl sy'n byw yn y cartref a'r rhai sy'n ystyried byw yma ddarllen gwybodaeth am yr hyn i'w ddisgwyl. Mae datganiad o ddiben cyfredol, a dywedodd y rheolwr wrthym y gellir darparu gwybodaeth yn Gymraeg i'r bobl os byddant am gael gwybodaeth yn Gymraeg. Mae rhai o'r staff yn siarad Cymraeg ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Mae'r staff yn sicrhau bod y bobl yn dathlu diwylliant a threftadaeth Cymru; maent yn ymweld â safleoedd treftadaeth Cymru ac yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 34 | Mae datganiad o ddiben y gwasanaeth yn nodi *"On a weekday staffing consists of Manager, Deputy, two support staff and a domestic."* Ar ddiwrnod ein hymweliad (a oedd yn ystod yr wythnos), roedd y dirprwy yn absennol oherwydd salwch, ac nid oedd cogydd oherwydd salwch. Dim ond un aelod o staff cymorth a'r rheolwr oedd yn bresennol ac yn gyfrifol am gefnogi 15 person yn y cartref. Darpar aelod o staff newydd oedd Staff A, a oedd yn cysgodi yn unig. Esboniodd y rheolwr fod Staff D (cogydd) yn absennol oherwydd salwch, felly hefyd Staff E. Mae pob person yn annibynnol yn gorfforol ag anghenion iechyd meddwl. Nid oedd gweithgaredd cymdeithasol penodol wedi'i drefnu i'r preswylwyr ar ddydd Gwener, felly ni fyddai llawer o effaith. Yr unig effaith a gafodd oedd na ellid cynnal unrhyw weithgaredd digymell, yn hytrach na gweithgareddau wedi'u trefnu. Ond pe bai cais yn cael ei wneud am weithgaredd, yna byddai'r gwasanaeth yn *'look at it being undertaken at the next available opportunity.'* Esboniodd y rheolwr fod tri aelod o staff 'banc', ond nad oedd yr un ohonynt ar gael i weithio'r shifft honno. Mae dau aelod ychwanegol o staff wedi cael eu penodi i ddechrau ar unwaith. Er nad oedd unrhyw effaith, mae angen gwell cynlluniau wrth gefn ar gyfer y dyfodol. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/01/2024